AGGCC
CSSIW
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Meithrinfa Siwgr Plwm Cyf.**

**Ffordd Heulog**
**Llanedwen**
**LL61 6EQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**19 Ebrill 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk. Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir, a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Meithrinfa Siwgr Plwm Cyf. wedi'i chofrestru i ddarparu gofal ar gyfer 70 o blant o dan 12 mlwydd oed, ac mae ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 7.30am a 6pm, ac eithrio gwyliau banc. Mae'r adeilad wedi'i leoli mewn ardal wledig yn agos i Lanfair Pwllgwyngyll, Ynys Môn.

Sioned Hughes yw'r unigolyn cyfrifol a'r person â gofal sy’n gyfrifol am reoli’r gwasanaeth o ddydd i ddydd.

Cynigir y gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf, gyda phob aelod o staff yn ddwyieithog – yn siarad Cymraeg a Saesneg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn teimlo'n hapus ac yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth. Maent yn hyderus, yn gyfarwydd â’r drefn ddyddiol ac wedi ffurfio perthnasau cadarnhaol â'u ffrindiau a staff. Mae gan y staff berthynas gynnes a gofalgar â'r plant, ac maent yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd chwarae ysgogol er mwyn hybu eu datblygiad cyffredinol – gyda phwyslais cryf ar hybu iechyd corfforol y plant. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel a bod adnoddau'n hyrwyddo chwarae a dysgu'r plant. Mae arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth yn effeithiol ac mae ganddynt bartneriaethau cadarnhaol iawn gyda rhieni a'r gymuned ehangach. Mae arweinwyr wedi creu ethos cadarnhaol ac wedi sefydlu tîm staff a chanddynt rolau a chyfrifoldebau clir sy'n darparu gofal o ansawdd uchel ar gyfer y plant.

### 2. Gwelliannau

Mae gwelliannau ers yr arolygiad diwethaf yn cynnwys:

- prynu teganau ac offer yn ogystal â chynnal a chadw'r gwasanaeth;
- mae staff wedi mynychu hyfforddiant a chyrsiau sy'n berthnasol i ofal y plant, ac mae'r rheolwr cofrestredig (yr arweinydd) hefyd wedi cwblhau cwrs rheoli;
- mae hyfforddiant mewnol wedi'i gyflwyno i sicrhau bod pob aelod o staff yn dilyn prosesau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn gyson;
- trefnwyd bod plant yn ymweld â chartref preswyl lleol bob mis;
- sefydlwyd tudalen ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn i rieni gael gwybodaeth ynglŷn â'r gwasanaeth.

Ers yr arolwg hwn, mae arweinwyr wedi cadarnhau'r canlynol yn ysgrifenedig:

- mae tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus y gwasanaeth ar waith ac mae'n ddilys;
- mae asesiadau risg wedi eu diweddaru i gynnwys ymweliadau â'r cartref preswyl;
- mae ffurflenni goruchwylio staff wedi cael eu rhoi ar waith fel bod cofnodion ffurfiol o'r cyfarfodydd hyn yn gallu cael eu cadw.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Mae argymhellion yn unig o ran arferion cadarnhaol wedi'u gwneud mewn perthynas â:
chofnodi sgyrsiau â rhieni pan fydd staff yn rhoi gwybod iddynt fod eu plentyn wedi dioddef anaf i'w ben;
cadw cofnod bod arweinwyr wedi gweld tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
ar gyfer pob aelod o staff yn eu ffeiliau a'u bod yn fodlon arni;
cadw cofnodion ysgrifenedig o sesiynau goruchwylio unigol pob aelod o staff.

# 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn mwynhau eu hamser yn y gwasanaeth. Maent yn hyderus, yn gyfarwydd â’r drefn ddyddiol ac wedi ffurfio perthnasau cadarnhaol â'u ffrindiau a staff. Mae plant yn gwneud dewisiadau ac yn datblygu eu sgiliau hunangymorth a sgiliau corfforol yn dda.

### Ein canfyddiadau

## 1.1 I ba raddau y mae gan y plant lais?

Mae gan y plant lais cryf a gwrandewir arnynt.

Roedd gan y plant ddigon o gyfleoedd i ddewis yr hyn yr oeddent eisiau ei wneud a gyda phwy yr oeddent eisiau chwarae gyda nhw. Er enghraifft, ar ôl amser cinio, roedd gan y plant cyn-ysgol lawer o adnoddau i ddewis ohonynt, a gwnaethant ddewis pa weithgaredd yr oeddent eisiau cymryd rhan ynddo. Clywyd rhai yn cael sgyrsiau manwl â staff, yn siarad am eu teulu a phwy oedd yn eu casglu - gyda staff yn gwrando'n astud ar yr hyn a oedd yn cael ei ddweud ac yn ymateb yn briodol.

Mae plant yn lleisio eu barn yn hyderus ac mae eu dewisiadau yn cael eu parchu.

## 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae plant yn teimlo'n ddiogel a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac maent wedi ffurfio perthynas glòs â'i gilydd a staff.

Roedd y plant yn teimlo'n ddiogel ac yn ymlaciedig gan eu bod yn deall y drefn ddyddiol ac roeddent yn fodlon. Er enghraifft, roeddent yn gwybod bod angen iddynt wisgo'n gynnes i fynd y tu allan i chwarae, ac roeddent yn hapus i wneud hynny. Roedd plant yn profi ymdeimlad o berthyn gan fod lawer o'u darnau o waith crefft yn cael eu harddangos yn eu hystafelloedd chwarae unigol, ac roedd ganddynt eu pegiau personol eu hunain i hongian eu cotiau a'u bagiau. Roeddent yn gwybod bod yr hyn a oedd ganddynt i'w ddweud yn bwysig oherwydd bod staff yn ymateb yn gadarnhaol i'w ceisiadau – megis pan oedd angen iddynt ddefnyddio'r toiled. Roedd plant yn gwneud ffrindiau cadarnhaol â'i gilydd a'r staff. Er enghraifft, roeddent yn chwarae ac yn creu gemau dychmygol – gyda phlant a oedd yn teimlo ychydig yn ansicr yn dal llaw aelod o staff am gysur. Roedd plant yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyflawni swyddogaeth 'helpwr heddiw' yn yr ystafell gyn-ysgol.

Mae plant yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel oherwydd eu bod yn derbyn gofal gan staff sy'n meithrin hyder a hunan-barch cadarnhaol.

## 1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â’i gilydd ac â'r staff.

Roedd y plant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac yn deall y rheolau ar gyfer ymddygiad, megis rhannu eitemau chwarae a bod yn garedig wrth ei gilydd. Roeddent yn gwrando ar gyfarwyddiadau yn dda, ac yn helpu i glirio'r teganau cyn mynd i chwarae y tu allan. Roedd yn braf gweld dau blentyn yn cario hambwrdd o ffigurau o bobl fach i'w rhoi i gadw, a ffrind yn galw arnynt gan ddweud 'Dewch yn gyflym, rwyf wedi dod o hyd i fwy.' Gwnaethant gasglu'r ffigurau a oedd ar goll yn gyflym, cyn mynd i storio'r hambwrdd a gwenu pan ddiolchwyd iddynt am eu help. Dyma enghraifft dda o ba mor dda roedd y plant yn cydweithredu a helpu ei gilydd, a theimlo'n falch o'u cyflawniadau.

Mae plant yn garedig, yn barchus ac yn dysgu sut i gydweithio'n gadarnhaol.

### 1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau eu profiadau dysgu a chwarae yn fawr iawn.

Roedd y plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau ac yn mwynhau chwarae ar eu pen eu hunain, mewn grwpiau ac ochr yn ochr â staff. Clywyd y plant iau yn sgrechian ac yn chwerthin yn foddhaus wrth iddynt chwarae yn y pwll peli - gyda chwerthin un plentyn yn dylanwadu ar ei ffrindiau a oedd yn gwenu o glust i glust, a gwnaethant ymuno yn yr hwyl. Roedd plant wedi eu hysgogi a'u cymell; gwnaethant greu storïau wrth iddynt chwarae gyda'r gweithgaredd â ffigurau o bobl fach, gan esgus bod tân a gweiddi 'injan dân i'r adwy'. Roedd un plentyn yn arbennig o hoff o ddefnyddio dŵr i'w daenu ar y mat paent, a gwnaeth aelod o staff eistedd ger ei llaw i siarad am y gwahanol siapau a lliwiau a oedd yn ymddangos. Gwelsom lawer o ffotograffau lliwgar o'r gwahanol weithgareddau roedd plant wedi cymryd rhan ynddynt: cario courgettes a phwmpen fawr o'r ardd, cymryd rhan mewn taith gerdded 'camau bach' dros elusen - ac i'r rheiny sy'n symud i addysg lawn amser ar ddiwedd y flwyddyn, ffotograffau o'u 'seremoni graddio' ac ohonynt yn taflu eu hetiau i'r awyr i ddathlu. Roedd plant wedi bod yn dysgu am ddiwylliannau a thraddodiadau gwahanol ac wedi gwneud Tŵr Gogwyddol Pisa o siapau pasta; roeddent wedi dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Dydd Gŵyl Dewi, ac wedi fflipio crempogau ar ddydd Mawrth Ynyd.

Mae'r plant yn ymgysylltu'n dda ag amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae, ac yn dangos diddordeb mawr yr hyn y maent yn ei wneud.

### 1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae plant yn datblygu'n dda, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol.

Roedd y plant yn gwybod lle i ddod o hyd i deganau gan fod ardaloedd o ddiddordeb wedi eu gosod yn dda ac roedd adnoddau o fewn eu cyrraedd. Roeddent yn gofalu am eu hanghenion personol ac yn defnyddio'r toiled a'r cyfleusterau golchi dwylo ar eu pennau eu hunain, neu'n cael cymorth gan aelod o'r staff pan fo angen. Roedd rhai plant hyd yn oed yn gallu gwisgo eu cotiau a'u hetiau amdanynt yn annibynnol, cyn mynd y tu allan i chwarae, gydag eraill a oedd angen ychydig o gymorth. Roedd sgiliau ieithyddol a dysgu'r plant yn gwella oherwydd fe'u clywsom yn cael llawer o sgyrsiau gyda'i gilydd, y staff a ni. Roedd y plant yn dysgu am iechyd corfforol da drwy fwyta prydau bwyd a byrbrydau maethlon a oedd wedi'u paratoi'n ffres, chwarae yn yr awyr iach ac roedd modd iddynt fynd at eu diodydd o ddŵr eu hunain yn ystod y dydd. Roeddent yn cael profiadau uniongyrchol wrth ddysgu am arddio a defnyddio'r llysiau a dyfir yn eu prydau bwyd bob dydd. Roeddent

yn defnyddio eu dychymyg yn dda wrth chwarae – gan annog eu ffrindiau yn aml i ymuno â nhw, er enghraifft, pan aethant ar bicnic dychmygol.

Mae gan blant amrywiaeth eang o brofiadau sy'n hybu eu datblygiad cyffredinol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae staff yn deall ac yn dilyn polisïau'r gwasanaeth o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddynt berthnasau cynnes a gofalgar â'r plant, ac maent yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd chwarae ysgogol er mwyn hybu eu datblygiad cyffredinol. Mae staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn diwallu eu hanghenion unigol.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach.

Gwnaethom drafod y polisi diogelu ag un aelod o'r staff a oedd yn gwybod beth i'w wneud pe bai ganddo bryderon ynghylch plentyn. Dilynid gweithdrefnau diogel, ac roedd cofnodion o ddamweiniau, digwyddiadau a meddyginiaethau'n cael eu cwblhau, a'u llofnodi gan rieni. Fodd bynnag, gweithdrefn y gwasanaeth oedd cysylltu â rhieni pe bai eu plentyn yn dioddef anaf i'w ben, ond nid oedd unrhyw adroddiad ysgrifenedig yn y cofnodion damweiniau fod rhieni wedi cael gwybod. Er mwyn bod yn glir o ran unrhyw gamau a gymerwyd o ganlyniad i gysylltu â rhieni, dylid cadw cofnod ysgrifenedig o'r sgyrsiau â rhieni. Roedd gan y staff dystysgrifau cymorth cyntaf pediatrig cyfredol, roeddent yn gallu ymdrin â mân anafiadau ac roeddent yn gwybod beth i'w wneud pe bai angen cymryd unrhyw gamau prydlon.

Roedd staff yn hybu arferion iachus drwy ddarparu bwyd a diodydd maethlon a thrwy sicrhau bod byrddau'n cael eu glanhau cyn ac ar ôl amseroedd bwyd. Roedd pob aelod o staff wedi llofnodi llawlyfr rheoli heintiau'r gwasanaeth ym mis Tachwedd 2017 gan ddangos y dylent i gyd wybod sut i reoli a lleihau (lle bo'n bosibl) unrhyw risg o groes-heintio. Roedd y gwasanaeth wedi cwblhau holl gamau'r Cynllun Cyn-ysgol Iach a Chynaliadwy. Roedd hyn yn cynnwys ennyn diddordeb plant, staff a theuluoedd mewn ffordd iach ac egnïol o fyw drwy ddatblygu ethos ac amgylchedd sy'n hybu iechyd.

Mae staff yn llwyddiannus wrth hybu ffyrdd iach o fyw a chadw plant yn ddiogel.

### 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio yn dda iawn.

Roedd staff yn dilyn polisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth ac yn esiampl dda o ymddygiad cadarnhaol. Nid oedd dryswch yn y ffordd roedd staff yn rheoli ymddygiad oherwydd yr oeddent yn gyson yn eu dull. Clywyd staff yn annog plant i rannu ac yn eu canmol pan oeddent yn garedig tuag at ffrind neu'n helpu i dacluso. Ymdriniwyd â mân ddigwyddiad lle nad oedd plentyn eisiau rhannu yn dawel a thrwy ddefnyddio dulliau tynnu sylw, ac arweiniodd hyn at y grŵp o blant yn chwarae'n braf ac yn rhoi'r eitem yr oedd ei ffrind ei eisiau iddo. Gwelsom fod staff wedi creu bwrdd arddangos 'emosiynau' yn yr ystafell gyn-ysgol, ac yn rhoi cyfle i'r plant drafod eu teimladau, ac yna gosod yr 'wyneb' a oedd yn disgrifio sut roeddent yn teimlo ar y bwrdd. Roedd yn braf gweld bod pob plentyn wedi dewis yr 'wyneb' hapus ar ddiwrnod ein hymweliad. Roedd staff yn dyner yn eu hymagwedd

ac yn dangos cynhesrwydd a hoffter go iawn tuag at y plant – roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffordd roedd plant yn ymddwyn tuag at ei gilydd a gyda'r staff.

Mae'r staff yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn llwyddiannus drwy fod yn esiamplau da a thrwy ddangos caredigrwydd a pharch tuag at y plant.

**2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?**

Mae staff yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau chwarae a dysgu ar gyfer y plant, sy'n eu galluogi i ddatblygu amrediad o sgiliau.

Canfuom drwy drafod â staff eu bod yn gyfarwydd ag anghenion a chamau datblygu'r plant sydd yn eu gofal, a'u bod yn seilio dysgu'r plant ar y rhain o'r adeg y gwnaethant ddechrau. Roedd modd gwneud hyn drwy drafod â rhieni, yn ogystal â thrwy gael gwybodaeth ysgrifenedig gan y rhieni pan oedd eu plentyn yn dechrau. Roedd staff yn cofnodi datblygiad y plant ac yn cynllunio gweithgareddau priodol ac amrywiol bob dydd a oedd yn gweddu i'r plant a'u hoedrannau. Roeddent yn ymgysylltu'n dda â'r plant megis yn eistedd ar yr un lefel â nhw i siarad am yr hyn yr oeddent yn ei wneud, ac estyn iaith y plant. Roedd yn braf gweld bod staff yn gwneud chwarae'r plant yn llawn hwyl, er enghraifft, drwy roi peli o'r pwll peli o flaen eu llygaid ac yna'n chwarae gêm 'bw!' gyda'r plant iau - roedd y plant wrth eu bodd. Roedd y plant hefyd yn mwynhau dawnsio a chanu i'r gerddoriaeth cadw'n heini gyda'r staff. Dywedodd staff wrthym fod eu gweithgareddau newydd a oedd yn seiliedig ar thema fisol yn gweithio'n dda, gyda'r gwasanaeth cyfan yn cymryd rhan yn yr un thema - gan roi cyfleoedd i bob un ohonynt awgrymu gweithgareddau er mwyn hybu dealltwriaeth y plant o'r pwnc. Roedd y staff yn adnabod y plant yn dda. Er enghraifft, gwnaethant ddweud wrthym beth oedd hoff fyrbrydau'r plant i'w bwyta, a pha blant yr oedd angen rhoi mwy o gwtshys iddynt wrth iddynt ddeffro o'u cyntun prynhawn. Roedd staff yn hapus, hyderus ac wedi ymlacio; roeddent yn gweithio fel tîm ac roedd ganddynt brofiad a gwybodaeth gadarn am ddatblygiad plant.

Mae'r staff yn hybu datblygiad cyffredinol y plant yn llwyddiannus ac yn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion unigol y plant.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd ysgogol a diogel sy'n canolbwyntio ar y plentyn, sy’n rhoi ethos cadarnhaol iddynt ar gyfer chwarae a dysgu. Dilynir gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod y plant yn cael eu cadw'n ddiogel a bod adnoddau'n lân ac o ansawdd da.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Roedd system ddiogel i gyfyngu mynediad i’r gwasanaeth; roedd y drws ffrynt wedi ei gloi, ac arno ddyfais a oedd yn gwneud mynediad drwy god yn unig, ac roedd yr ardaloedd y tu allan yn gaeedig. Roedd hyn yn golygu bod arweinwyr yn sicrhau nad oedd modd i unrhyw unigolyn gael mynediad i'r adeilad heb awdurdod. Roedd arweinwyr yn cynnal asesiadau risg ysgrifenedig a oedd yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen. Er enghraifft, roeddent wedi'u diweddaru yn dilyn damwain ac yn fwy diweddar, er mwyn asesu'r defnydd o gegin fwd newydd y plant. Er bod ymarferion tân yn cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn, efallai y byddai'n fuddiol eu hymarfer yn fwy rheolaidd er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff a'r holl blant yn gyfarwydd â'r drefn hon. Roedd gweithdrefnau gweithredol ar waith ar gyfer ymweliadau i ffwrdd o'r gwasanaeth, a oedd yn dangos bod arweinwyr wedi ymrwymo i sicrhau bod y plant yn ddiogel bob amser. Roedd arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n briodol, fel y gwelwyd yn ystod yr arolygiad, gyda chymarebau staffio digonol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adeilad yn lân ac maent wedi sefydlu gweithdrefnau i gadw'r plant yn ddiogel yn y gwasanaeth a'r gymuned.

### 3.2 Pa mor dda mae'r arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae’r arweinwyr yn darparu amgylchedd cyfforddus ac ysgogol lle mae'r plant yn datblygu ac yn tyfu.

Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod gan y plant ddigon o ofod i symud o gwmpas a bod yn egnïol. Roedd y rhan fwyaf o'r bocsys storio wedi cael eu labeli, ac roedd adnoddau wedi'u gosod i hybu annibyniaeth y plant. Roedd mannau wedi'u cyfarparu a'u diffinio'n dda, ac roedd gwaith crefft y plant yn cael ei arddangos, gan wneud yr amgylchedd yn gartrefol iddynt. Roedd yr ardaloedd caeedig y tu allan yn darparu amgylchedd cyfoethog i'r plant ddysgu drwy chwarae, megis reidio beiciau, garddio, chwarae yn y gegin fwd a chwarae'n ddychmygol. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod plant yn derbyn gofal yn eu hystafelloedd canolog, a oedd yn golygu bod modd iddynt fynd at deganau a dodrefn a oedd yn addas i'w hoedrannau a'u camau datblygu. Roedd y toiledau, cyfleusterau newid cewynnau a basnau golchi dwylo wedi'u lleoli yn agos at ystafelloedd chwarae'r plant, a oedd yn dangos bod arweinwyr yn sicrhau y gellid cael mynediad atynt yn hawdd pan fo angen. Roedd yr amgylchedd yn olau ac yn awyrog, gyda phob un o ystafelloedd chwarae'r plant wedi'i haddurno'n lliwgar ac yn groesawgar. Roedd holl waith crefft y plant yn cael ei arddangos ac roedd modd iddynt edrych ar lawer ohono ar yr un lefel â nhw; yn enwedig y collage artistig a chreadigol yr oedd y plant bach wedi mwynhau ei greu. Roedd hyn yn

dangos bod staff ac arweinwyr yn sicrhau bod plant yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys. Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod yr amgylchedd i gyd yn darparu cyfleoedd i'r plant archwilio a fforio ac roeddent yn eu hannog i ddysgu drwy chwarae.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn darparu amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae, sy'n addas ar gyfer ystod oedran y plant sy'n mynychu.

**3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r offer?**

Mae’r arweinwyr yn darparu amrediad o adnoddau sy'n addas i oedran a chamau datblygu'r plant.

Roedd gan arweinwyr weithdrefnau addas ar waith er mwyn sicrhau bod adnoddau ac offer yn lân ac mewn cyflwr da, fel y gwelwyd. Roedd pob ystafell chwarae wedi'i gosod gydag adnoddau a oedd yn addas ar gyfer oedrannau'r plant, megis cadeiriau uchel a oedd wedi'u gosod â harneisiau 4/5 pwynt, a 'gwelyau' lefel isel i'r plant gysgu. Roedd y dewis o adnoddau yn ysgogi ac yn annog plant i ddilyn eu diddordebau a datblygu sgiliau gwahanol. Er enghraifft, roedd teganau gwthio yn yr ystafell fabanod yn helpu'r plant bach wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau cerdded, yn ogystal â gweithgaredd 'ysbyty' a oedd yn rhoi cyfle i'r plant cyn-ysgol ddatblygu eu dychymyg a'u dysgu. Roedd y dodrefn o faint priodol, a oedd yn galluogi'r plant i eistedd yn gyfforddus i fwyta ac i wneud gweithgareddau pen bwrdd. Roedd adnoddau'n amrywiol ac yn ysgogol, ac roedd plant yn cael eu cefnogi i ddeall elfennau o wahanol ddiwylliannau a gwyliau. Roedd yr arweinwyr yn darparu amrywiaeth eang o eitemau naturiol, eitemau a ailgylchwyd ac eitemau cartref i'r plant ar gyfer gwaith crefft a gwneud modelau – a oedd yn hyrwyddo ethos o gynaliadwyedd yn y gwasanaeth.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod ansawdd ac amrywiaeth yr adnoddau yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau a gwybodaeth y plant.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ac maent wedi ymrwymo i fonitro a gwella'r gwasanaeth. Mae partneriaethau effeithiol ar waith gyda rhieni a'r gymuned leol. Mae'r arweinwyr wedi creu ethos cadarnhaol ac wedi sefydlu tîm staff a chanddynt swyddogaethau a chyfrifoldebau clir sy'n darparu gofal o ansawdd uchel ar gyfer y plant.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o'r arferion gorau cyfredol ac maent yn arwain y gwasanaeth yn effeithiol.

Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod datganiad o ddiben y gwasanaeth yn gywir ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar rieni er mwyn penderfynu a yw'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion nhw a rhai eu plant. Roedd arweinwyr yn gosod amcanion clir er mwyn hyrwyddo a chynnal gwelliannau. Er enghraifft, roeddent wedi cwblhau'r Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy yn llwyddiannus, sy'n rhan o Fenter Ysgolion Iach Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gofal plant cyn-ysgol, gyda'r nod o 'hyrwyddo a diogelu pob agwedd ar iechyd: corfforol, emosiynol, meddyliol, cymdeithasol a llesiant cymuned y gwasanaeth cyfan.' Adlewyrchid ethos y cynllun drwyddi draw yn y gwasanaeth ac fe'i gwelwyd yn ystod ein hymweliad, megis drwy hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a'r gweithgareddau a gynlluniwyd.
Roedd arweinwyr yn cyfleu eu gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth drwy edrych ar weithdrefnau i godi safonau a'u gweithredu, a hyrwyddo arferion diogel megis adolygu a diweddaru polisïau i adlewyrchu newidiadau cyfredol a chanllawiau sy'n berthnasol i ofal plant. Roedd arweinwyr wedi cwblhau eu Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth (SASS) a'r wybodaeth ategol sy'n ofynnol gennym, a oedd yn dangos eu bod yn cydymffurfio â'r hyn a oedd yn ddisgwyliedig ohonynt. Roedd arweinwyr yn cyflogi staff a oedd siarad Cymraeg ac yn darparu rhywfaint o wybodaeth ddwyieithog i rieni, ac roedd cynlluniau ar gyfer gwneud polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael yn y Gymraeg. Roeddent yn sicrhau bod yr holl staff a gyflogir yn medru siarad a deall y Gymraeg. Roedd arweinwyr felly yn gwneud cynnydd o ran darparu cynnig gweithredol Llywodraeth Cymru.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau cadarn er mwyn rheoli a goruchwylio eu gwasanaeth.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae arweinwyr yn gwneud newidiadau cadarnhaol er mwyn symud y gwasanaeth yn ei flaen.

Gwelsom fod yr arweinwyr wedi cwblhau adolygiad ansawdd gofal blynyddol yn manylu ar yr adborth gan rieni, plant a staff a'r gwelliannau a wnaed hyd yn hyn a'r rhai hynny sydd wedi eu cynllunio ar gyfer y dyfodol. Roedd rhieni'n ganmoliaethus yn eu hymatebion, a lle'r oedd angen gwneud gwelliannau, roedd arweinwyr wedi mynd i'r afael â'r rhain yn gyflym ac yn effeithlon. Roedd hyn yn dangos bod arweinwyr wedi ymrwymo i wneud newidiadau cadarnhaol er mwyn symud y gwasanaeth yn ei flaen. Gwnaethom ddarllen rhai o'r sylwadau yr oedd rhieni wedi'u gwneud, a oedd yn nodi 'Dim cwynion, hapus iawn', 'Mae'r staff yn ofalgar ac yn sylwgar' ac 'Mae staff yn llawn gwybodaeth ac yn dda.' Roedd staff wedi gwneud sylwadau cadarnhaol yn eu holiaduron, gan nodi ei fod yn braf gweithio yn Siwgr Plwm a bod 'amgylchedd cyfeillgar.' Cadarnhaodd un aelod o staff fod modd mynd i'r rheolwyr a siarad â nhw. Canfuom drwy drafod ag arweinwyr eu bod yn gwerthfawrogi'r adborth a dderbyniwyd oherwydd ei fod yn rhoi cyfle iddynt fyfyrio am eu gwasanaeth a gwella arferion.

Mae arweinwyr wedi sefydlu prosesau effeithiol er mwyn monitro a gwella'r gwasanaeth.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, y staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gwasanaeth mewn modd trefnus.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi gan yr arweinwyr, a'u bod yn gwybod eu bod yn gallu mynd atynt os oedd angen arweiniad arnynt neu os oes ganddynt bryder. Canfuom fod arweinwyr wedi sefydlu proses sefydlu a'u bod yn sicrhau bod staff wedi darllen a deall polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth pan wnaethant ddechrau, yn ogystal â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt ynghylch unrhyw newidiadau wrth iddynt godi. Gwnaethom edrych ar dair ffeil staff a chanfod bod y rhain yn cydymffurfio â'r rheoliadau gofynnol o ran sicrhau bod staff yn addas i'w swyddi. Roedd cliriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cwblhau ar gyfer pob aelod o staff, ac roedd arweinwyr yn cadw cofnod ar wahân o'r adegau yr oeddent wedi gweld y tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'r dyddiadau yr oedd angen eu hadnewyddu. Gwnaethom ofyn bod y cofnodion hyn yn cael eu cadw ar ffeiliau staff unigol, gyda'r arweinwyr yn nodi eu bod wedi gweld y dystysgrif a'i bod yn glir. Ar y pryd roedd arfarniadau blynyddol o staff yn cael eu cwblhau, ac roedd yr arweinwyr yn nodi ar bob un sut yr oeddent yn mynd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd. Er bod cyfarfodydd anffurfiol gydag aelodau unigol o staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn, gwnaethom ofyn i'r arweinwyr gofnodi'r rhain fel eu bod yn gallu dangos sut yr oeddent yn mynd i'r afael â materion o ran arferion neu bryderon yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Roedd arweinwyr wedi creu matrics hyfforddiant er mwyn sicrhau bod staff yn mynychu cyrsiau i ddiweddaru eu hyfforddiant gorfodol, ac roedd y person cofrestredig ei hun wedi llwyddo i gyflawni Lefel 4 ar gwrs Arweinyddiaeth a Rheolaeth - a oedd yn dangos ymrwymiad i wella arferion a chydymffurfio â rheoliadau. Roedd arweinwyr yn trefnu staff er mwyn sicrhau bod gan blant o leiaf un aelod cyson o staff yn gofalu amdanynt bob dydd, ac oherwydd y trosiant isel iawn o staff, roedd arweinwyr yn sicrhau bod plant yn gyfarwydd iawn â'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

Mae arweinwyr wedi rhoi systemau ar waith i fonitro perfformiad a gwirio bod staff yn addas i ofalu am blant.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae gan yr arweinwyr bartneriaethau cadarnhaol â rhieni, gweithwyr proffesiynol a'r gymuned.

Roedd arweinwyr yn hysbysu rhieni am amser eu plant yn y gwasanaeth - ar lafar a thrwy gofnodion ysgrifenedig dyddiol. Roedd rhieni'n rhannu gwybodaeth ynglŷn â'u plentyn cyn i'w plentyn ddechrau, fel bod arweinwyr yn gallu rhannu trefn ddyddiol pob plentyn, eu hoffterau a'u hanghenion â'r tîm staff. Roedd arweinwyr yn rhoi cylchlythyrau rheolaidd i rieni drwy gydol y flwyddyn, a oedd yn ddull cadarnhaol o hysbysu rhieni ynghylch unrhyw newidiadau a'r gweithgareddau a gynlluniwyd. Roedd yr arweinwyr yn cynnwys rhieni yng nghyflawniadau eu plentyn, ac roedd yn braf gweld ffotograffau o deuluoedd y plant yn dathlu diwrnod graddio eu plentyn. Roedd hyn yn rheswm dros ddathlu i bawb - cafwyd te prynhawn ac roedd y plant yn mynd â thedi graddio a ffotograff mewn ffrâm o'u diwrnod mawr adref â nhw. Eid â'r plant am dro yn aml, gyda'r plant hŷn a oedd yn mynychu'r clybiau gwyliau yn mynd ar wibdeithiau i atyniadau lleol. Dros y blynyddoedd, roedd arweinwyr wedi trefnu ymweliad Nadoligaidd i'r plant ganu carolau mewn cartref preswyl cyfagos i'r henoed. Yn fwy diweddar, roedd ymweliadau misol wedi'u trefnu i ymweld â chartref gwahanol - bu i'r plant ymweld ar ddiwrnod ein hymweliad lle roeddent wedi mwynhau chwarae gemau gyda'r henoed. Mae'r rhain yn gyfleoedd gwych i'r plant gymdeithasu, dysgu mwy am y byd o'u cwmpas ac i deimlo eu bod cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn rhan o'u cymuned.

Mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau effeithiol iawn sy'n hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i blant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac argymhellion yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Dim

### 5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

I'w hystyried:

- cofnodi sgyrsiau â rhieni pan fydd staff yn rhoi gwybod iddynt fod eu plentyn wedi dioddef anaf i'w ben;
- cadw cofnod bod arweinwyr wedi gweld tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) pob aelod o staff yn eu ffeiliau a'u bod yn fodlon arni;
- cadw cofnodion ysgrifenedig o sesiynau goruchwylio unigol pob aelod o staff.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cafodd yr arolygiad hwn ei gynnal fel rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau. Gwnaeth un arolygydd gynnal ymweliad dirybudd ar 28 Chwefror 2018 am tua thair awr, ac ymweliad lle rhoddwyd rhybudd â'r gwasanaeth ar 5 Mawrth 2018 am tua phedair awr.

- Gwnaethom archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau, gan gynnwys y datganiad o ddiben, asesiadau risg, y polisi diogelu plant a'r polisi rheoli ymddygiad
- Gwnaethom edrych ar y mannau a'r adnoddau roedd y plant yn eu defnyddio ar ddiwrnod ein harolygiad
- Gwnaethom arsylwi ar y plant a'r gofal roeddent yn ei dderbyn
- Gwnaethom siarad â'r person cofrestredig a'r staff
- Gwnaethom roi adborth i'r unigolyn cyfrifol am yr hyn a welsom a’r hyn y mae angen rhoi sylw iddo.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan, www.aggcc.org.uk

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Unigolyn cyfrifol | Sioned Hughes |
| Person â gofal | Sioned Hughes |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 70 |
| Ystod oedran y plant | 3 mis hyd at 11 oed |
| Oriau agor | 7.30am i 6pm yn ystod yr wythnos |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGGCC | 26 Chwefror 2016 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 28 Chwefror 2018 a 5 Mawrth 2018 |
| Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol Y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog. |
| Gwybodaeth ychwanegol: | |